**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**87 - Rheoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygiadau ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019**
*Wedi'u gosod yn Senedd y DU: 31 Ionawr 2019*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Y weithdrefn: | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Dd/B |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 20 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dd/B |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Dd/B |
| Y weithdrefn: | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Nid yw'n hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Nid yw'n hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Nid yw'n hysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau Cadarnhaol drafft hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r offeryn statudol hwn yn cael ei wneud i gywiro elfennau o ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir na fydd modd eu gweithredu yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Er mwyn cynnal diogelwch bwyd ar ôl i'r DU ymadael â’r UE, mae angen sicrhau bod Rheoliadau presennol yr UE yn cael eu dargadw yng nghyfraith y DU ar ffurf y gellir ei gweithredu. Mae'r offeryn hwn yn cyflawni hyn yn bennaf ar gyfer Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 ond hefyd ar gyfer rhai Rheoliadau cysylltiedig.

Mae Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 yn pennu gofynion penodol ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd sy'n cynhyrchu ac yn trin rhai cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid. Er mwyn iddynt weithredu, mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd o'r fath gael eu cymeradwyo gan 'awdurdod cymwys' (sef yr ASB mewn lladd-dai a gweithfeydd torri ac awdurdodau lleol mewn sefydliadau eraill) ac fel rhan o hyn, rhoddir rhif unigryw i bob sefydliad. Yn y DU, gallai hyn effeithio ar 64,531 o sefydliadau busnes bwyd cymeradwy.

Mae'r ddeddfwriaeth a ddargedwir fel y'i diwygiwyd gan yr offeryn hwn yn sicrhau y cynhelir hyn yn achos senario "dim bargen". Bydd unrhyw gytundebau a wneir yn ystod y trafodaethau ymadael sy'n effeithio ar y gyfundrefn reoleiddio bwyd yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddiwygiadau i'r offeryn hwn yn y dyfodol.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 4 Chwefror 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.